# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Rhagfyr 2017 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ym Modlondeb, Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 o'r gloch y bore.

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A J Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); R Simmons, R Fairhead a G Brandrick (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A Daniels | Cyngor Gwynedd |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| D Lloyd | Cyngor Gwynedd |
| P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MEHEFIN 2017

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 18 Medi 2017 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 O ran cofnod rhif 4.1 (y cynnig cyflog i ddiffoddwyr tân) cafodd yr aelodau ddiweddariad am y cynnig cyflog. Nodwyd bod y cynnig ffurfiol wedi cael ei wrthod. Roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) wedi cyllidebu ar gyfer 1%, ond awgrymwyd uwchgodi 1%, tra oedd y trafodaethau'n parhau. Derbyniwyd hyn ond nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn ddatrysiad i'r anghydfod cyflog.

4 MATERION BRYS

4.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybodaeth i'r Aelodau am ddigwyddiad yng Ngwesty'r Gateway to Wales, Glannau Dyfrdwy am 4.30am y bore hwnnw. Daeth galwad fod adeilad ar dân, roedd y to'n llosgi ac roedd saith injan dân a 55 o ddiffoddwyr tân wedi bod yno. Roedd tair injan dân yn dal ar y safle. Cafwyd cyfrif am 74 o aelodau o'r cyhoedd ac un aelod o'r staff. Canmolwyd y gwaith rhagorol a oedd yn cael ei wneud mewn partneriaeth, o ran cau ffyrdd a defnyddio dronau'r heddlu i dynnu lluniau, ac roedd y Gwasanaethau Ambiwlans ar y safle drwy'r amser.

4.2 Dywedodd y Clerc, fel Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint, na chafwyd unrhyw anafiadau yn y digwyddiad yng Ngwesty'r Gateway to Wales. Roedd yno nifer o bobl ddigartref, gyda'r rhai pobl fregus yn eu plith, ac mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w hailgartrefu.

4.3 Cafodd yr aelodau wybod hefyd fod adroddiad interim y Fonesig Judith Hackitt ar dân Tŵr Grenfell wedi cael ei gyhoeddi.

4.4 Roedd yr Aelodau'n dymuno cofnodi eu gwerthfawrogiad o waith Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y digwyddiad, gan dynnu sylw at fanteision cydweithio. *Sylwer: Ar ddiwedd y cyfarfod, cafodd yr Aelodau wybod bod holl breswylwyr y gwesty wedi cael gofal ac wedi cael eu hailgartrefu lle bo angen.*

4.5 Gan fod Alwen Davies yn sâl, gofynnwyd i Wasanaethau Pwyllgor Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wneud cofnodion y cyfarfod. Anfonwyd y dymuniadau gorau i Alwen am wellhad buan.

4.6 Hefyd anfonwyd y dymuniadau gorau i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gary Brandrick, gan ei fod yn ymddeol ar ôl 30 mlynedd o wasanaeth.

4.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Medi a Rhagfyr 2017 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau ei fod wedi cwrdd ag Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC. Rhoddodd y Swyddog Monitro wybod i'r Aelodau fod Bil Llywodraeth Leol 2019 ar y gweill. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol am Ddiwygio Llywodraeth Leol ar gael ar hyn o bryd. I ymateb i hynny, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod y gwaith diwygio tân ac achub yn canolbwyntio ar gyllid a llywodraethu, roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi mynegi awydd i gwblhau'r broses ac roedd eisiau dialog yn gynnar.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

***Cytunodd yr Aelodau i gael yr adroddiadau ariannol yn y drefn arall.***

6 Y POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

6.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r newid i Bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2017/18 a chymeradwyo'r Polisi ar gyfer 2018/19.

6.2 Yn dilyn adolygiad o Bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw cyfredol yr Awdurdod Tân ac Achub, canfuwyd bod modd cael cyfle pwysig am arbedion sylweddol drwy newid y dull o wneud y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw. Cyfrifwyd y byddai'r arbediad blynyddol i'r gyllideb refeniw yn £366k, ac os caiff yr adolygiad ei gymeradwyo ar gyfer 2017/18, gellid cael arbedion yng nghyllideb 2017/18. Roedd y newid hefyd yn cyflwyno dull mwy teg o ddosrannu'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf.

6.3 Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn methu â rhoi barn ynglŷn â'r adolygiad ar hyn o bryd. Ond roedd y newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â'r newidiadau a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru – y rheini yr oedd eu cyfrifon wedi'u harchwilio yn dilyn adolygu'r polisi, a hynny heb dynnu sylw at unrhyw broblemau na risgiau.

6.4 O ran benthyca digymorth ar dir ac adeiladau, cymharwyd yr opsiynau a oedd ar gael ac roeddent yn cynnwys:

- 4% o falans yn lleihau (opsiwn 2)
  Roedd y dull hwn yn awgrymu y byddai'r benthyciad yn cael ei ad-dalu dros gyfnod o 25 mlynedd, ond gan fod y cyfrifiad yn cymhwyso'r 4% i'r balans sy'n lleihau, roedd yn cymryd llawer mwy na 25 mlynedd i dalu'r benthyciad yn llwyr.

- Dull Blwydd-dal/Chwyddiant (opsiwn 3)
  Yn ôl y cyngor a gafwyd, nid oedd hyn yn addas o safbwynt cyllidebol. A gan fod y costau'n cael eu pwysoli tuag at ran olaf y cyfnod ad-dalu, byddai cenedlaethau'r dyfodol yn talu mwy am asedau sy'n cael eu defnyddio heddiw, felly cafodd hyn ei eithrio.

- Llinell syth – taliad cyfartal (opsiwn 3)
  Roedd yr opsiwn hwn yn cyd-fynd yn agosach ag oes asedau'r Awdurdod, ac roedd y costau'n cael eu gwasgaru'n fwy cyfartal rhwng trethdalwyr a fyddai'n elwa ar yr asedau. Ystyriwyd bod y dull hwn yn fwy teg ar sail rhannu'r gost.

6.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) ffafrio'r opsiwn Llinell Syth – taliad cyfartal (opsiwn 3);**

**(ii) newid proffil ad-dalu'r balans sy'n weddill o'r gwariant cyfalaf ar Dir ac Adeiladau, a oedd yn £17.2 miliwn ar 31 Mawrth 2017, i'r dull llinell syth i'w ad-dalu dros oes yr ased;**

**(iii) bod gwariant cyfalaf newydd ar Dir ac Adeiladau, sy'n cael ei ariannu gan fenthyciad digymorth o 2017/18 ymlaen, yn cael ei ad-dalu dros oes yr ased;**

**(iv) bod hyn yn golygu newid y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yn ystod y flwyddyn, - o Opsiwn 2, sef y dull gofyniad cyfalaf, i Opsiwn 3, sef y Dull Oes Ased.**

7 ALLDRO AMCANOL 2017-18

7.1 Rhoddwyd alldro amcanol wedi'i amcangyfrif i'r aelodau am flwyddyn ariannol 2017-2018. Yn ôl yr arwyddion presennol, ni fyddai unrhyw danwariant a byddai angen £317,349 o'r cronfeydd wrth gefn i gefnogi cyllideb 2017-2018 heb newid y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw. Drwy newid y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw, amcangyfrifid y byddai angen cyfraniad o £49k i'r cronfeydd wrth gefn. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, amcangyfrifwyd y byddai angen £414,223 o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn cael cyllideb fantoledig. Roedd dadansoddiad manwl yn Atodiad A o'r adroddiad.

7.2 Dyma rai o ymholiadau'r aelodau:

- i ymateb i ymholiad am gostau cludiant, a oedd yn fwy na'r ffigwr alldro, nodwyd y byddai prynu peiriannau'n cael ei drosglwyddo o'r refeniw i'w cyfalaf gan leihau'r gwariant oherwydd byddai'r eitem yn cael ei thalu dros oes y cerbyd. Nodwyd hefyd fod gwaith atgyweirio a chynnal a chadw hirach yn cael ei gategoreiddio fel eitem refeniw erbyn hyn.
- i ymateb i ymholiad ynglŷn â ffioedd proffesiynol, a oedd hefyd yn fwy na'r ffigwr alldro, dywedwyd bod cost uwch yn gysylltiedig â thalu broceriaid ariannol, er bod y cyfraddau llog yn is. Gwneir ymchwil i opsiynau er mwyn gostwng y ffigwr.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod**

8 STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2018-2021 A'R GYLLIDEB AR GYFER 2018-19

8.1 Cafodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2018-2021, ynghyd â chyllideb ddrafft ar gyfer 2018-2019, eu cyflwyno gan y Trysorydd.

8.2 Roedd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod yn nodi'r rhagdybiaethau ynglŷn â chyflog sydd wedi cael eu defnyddio wrth lunio cyllideb refeniw ddrafft yr Awdurdod ar gyfer 2018-2019. Un yn unig o'r ffactorau anhysbys wrth osod cyllideb fantoledig ar gyfer y flwyddyn nesaf oedd cyflogau. Amlinellwyd y risgiau a'r ansicrwydd, ac amlinellwyd ffordd o ariannu'r lefel gyfredol o ddarpariaeth gwasanaethau yn y tymor byr.

8.3 Er mwyn cyfrannu at y mesurau cyni ledled yr holl sector cyhoeddus, fe wnaeth ATAGC rewi ei gyllideb o 2011–2012 hyd at 2014–2015. Yn 2015-2016, bu cynnydd bach iawn o ryw £113k ac yn 2016-2017, defnyddiodd yr Awdurdod gronfeydd wrth gefn eto i rewi'r gyllideb. Yn ystod y cyfnod hwn, canfu ATAGC £3 miliwn o arbedion (10% o'i gyllideb) a gweld ei weithlu yn gostwng 9%. Arweiniodd hyn at ostyngiad cyflymach yn niferoedd y staff nag yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y De.

8.4 Mae GTAGC yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru. Dosbarthwyd gwybodaeth (Atodiad B: Cyfraniadau Arfaethedig Awdurdodau Cyfansoddol) i roi cyfraniadau arfaethedig ar sail 1.00%, 1.50%, 2.00% a 2.50% gan bob un o'r Awdurdodau.

8.4 Tynnwyd sylw at ba mor anodd yw'r trafodaethau sy'n mynd ymlaen am gyflogau diffoddwyr tân. Ni chytunwyd eto ar y dyfarniad cyflog ar gyfer 2017-2018. Roedd y cynnig gwreiddiol, sef 2%, yn fwy o 1% na'r swm yng nghyllideb 2017-2018 (tua £130,000). Gwrthodwyd hyn wedyn. Roedd alldro 2017-2018 yn rhagdybio cynnydd o 1% ac roedd y gyllideb ar gyfer 2018–2019 yn rhagdybio 1% arall. Byddai'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn yn ffynhonnell bosibl o gyllid os bydd y setliad cyflog yn fwy na 1%.

8.6 Nodwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau'r Aelodau:

- Rhoddwyd eglurhad ar y cyllid ar gyfer staff lifrai, a nodwyd bod ail-strwythuriad bach wedi digwydd dan y gyllideb flaenorol. Tynnodd y Prif Swyddog Tân sylw at y cyfyng gyngor parhaus sy'n gysylltiedig â pharhau gyda'r mesur cyni a defnyddio'r tanwariant ar gyfer staff dyletswydd er mwyn cefnogi'r gyllideb. Y canlyniad oedd lefel isel o staff ar gael.
- Rhoddwyd eglurhad ar atgyweirio a chynnal a chadw, a nodwyd mai dim ond eitemau sy'n gwella adeilad oedd yn cael eu hystyried yn wariant cyfalaf. Roedd cynnal a chadw'n cael ei ystyried yn wariant refeniw.
- Rhoddwyd eglurhad ar amcangyfrif y cyfraniadau arfaethedig gan yr awdurdodau cyfansoddol. Darparwyd yr amcangyfrif gan Lywodraeth Cymru. Roeddent yn seiliedig ar ffigyrau poblogaeth.
- Roedd yr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol wedi cynyddu yn Wrecsam oherwydd yr orsaf dân newydd.
- I ymateb i bryderon fod awdurdodau lleol eisoes wedi torri gwasanaethau ac y byddai angen ystyried 1% o gynnydd ychwanegol yn y dyfodol, tynnodd y Prif Swyddog Tân sylw at y problemau ar lefel leol o ran y dyfarniad cyflog a'r disgwyliadau gan rai y byddai hyn yn cael ei ariannu ar lefel y DU. Nodwyd bod cyfarfodydd cadarnhaol wedi cael eu cynnal gyda'r awdurdodau lleol. Tynnwyd sylw at yr angen i neilltuo arian i dalu'r dyfarniad cyflog sydd wedi'i ôl-ddyddio. Tynnodd y Prif Swyddog Tân sylw at y gostyngiad o 9% yn nifer y staff a'r risg iechyd a diogelwch yn y System Rheoli Digwyddiadau. Roedd Gweithgor y Cynllun Gwella wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau arbedion ym mis Mawrth 2017, ac roedd y rheini wedi cael eu gwrthod.
- Ailfynegodd yr aelodau eu pryderon am y toriadau yng nghyllidebau eu hawdurdodau lleol a sut mae hynny'n effeithio ar eu cymunedau.

- Rhoddwyd eglurhad ar y cynnydd yn y cymorth caffael (o £7,500 i £17,000), a nodwyd bod cytundeb gwasanaeth caffael yn bodoli gyda Heddlu Gogledd Cymru, a dim ond rhan o'r gyllideb oedd yn cael ei defnyddio.
- Rhoddwyd eglurhad ar y cynnydd yn y ffioedd dyledion (o £3 miliwn i £3.4 miliwn) a oedd wedi digwydd oherwydd y gwariant o dan y polisi darpariaeth isafswm refeniw ar asedau oes fer megis cerbydau, gweithfeydd a pheiriannau.
- Dywedodd y Trysorydd y byddai 0% o gyfraniad gan yr awdurdodau lleol yn cyfateb i 4% o wariant net ac roedd terfyn o £600k, neu lai, yn risg annerbyniol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Nodwyd mai'r traddodiad oedd dirprwyo pwerau ar gyfer addasu lefel y gyllideb am i lawr i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc os daw setliad ariannol gwell.
- Awgrymodd un aelod y gallai Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod adolygu'r rhannau 'dymunol i'w gwneud' yn y Gwasanaeth ac edrych eto ar y ddarpariaeth lawn amser yn Wrecsam. Tynnwyd sylw at fwriadau Ysgrifennydd y Cabinet yn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sefyllfa ariannol sy'n newid.
- Dywedodd y Prif Swyddog Tân fod angen ceisio cael arbedion sylweddol yn 2019-2020 a bod angen i'r Gweithgor Cynllunio adolygu £1.5 miliwn yn Ionawr 2018, a hynny i ddod o bosibl drwy leihau gwasanaethau, a thynnu gorsafoedd a pheiriannau tân.

8.7 Cynigiwyd, ac eiliwyd, bod cyfraniadau'r awdurdodau lleol yn cynyddu 1% a bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Trysorydd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc i addasu'r gyllideb am i lawr os daw unrhyw arbedion i'r amlwg.

8.8 Rhoddwyd y cynnig i bleidlais, a dyma'r canlyniad: o blaid – 14; yn erbyn – 2; yn ymatal 0.

8.9 **PENDERFYNWYD**

**(i) cefnogi'r strategaeth ariannol tymor canolig;**

**(ii) cael 1% o gynnydd yng nghyfraniadau'r awdurdodau lleol, a dirprwyo awdurdod i'r Trysorydd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc i addasu lefel y gyllideb am i lawr os daw unrhyw arbedion i'r amlwg.**

9 ARIANNU'R TÎM CYMORTH CYMUNEDOL

9.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Brandrick wybod i'r Aelodau am hynt cynllun treialu'r Tîm Cymorth Cymunedol. Roedd y tîm yn ceisio cynorthwyo pobl a oedd wedi cwympo gartref ac yn methu â chodi ar eu pen eu hunain ond a oedd heb gael anaf.

9.2 Roedd cynllun treialu'r tîm cymorth cymunedol yn parhau i gael canlyniadau rhagorol wrth gynorthwyo pobl a oedd wedi cwympo. Roedd niferoedd y bobl a oedd yn aros gartref heb fod angen gofal yn yr ysbyty yn parhau i fod yn uwch na 85%. Roedd cais am gyllid am ddwy flynedd o fis Ebrill 2018 ymlaen ar gyfer tîm cymorth cymunedol ledled Gogledd Cymru wedi cael ei gyflwyno i'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg. Roedd cyllid rhannol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol (2017-18) wedi dod drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol.

Gofynnir i'r Aelodau ystyried bod y cynllun treialu yn cael ei gefnogi'n ariannol os oes angen, a hynny drwy ddarparu hyd at uchafswm o £66k tan ddiwedd mis Mai 2018.

9.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi bod y tîm cymorth cymunedol yn darparu gwasanaeth a chanlyniadau rhagorol parhaus;**

**(ii) gweithredu cynllun treialu'r tîm cymorth cymunedol tan ddiwedd cytundebau cyfnod penodol aelodau'r tîm, a ddaw i ben ar 30 Mai, 2018. Byddai'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â hyn yn £40k ynghyd ag uchafswm o gostau diswyddo posibl o £26k.**

10 AELODAETH Y GWEITHGOR CYNLLUNIO

10.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar aelodaeth Gweithgor Cynllunio'r Awdurdod.

10.2 Ers 2003, mae'r Awdurdod wedi enwebu Aelodau i eistedd ar weithgorau i ddatblygu cynlluniau yn unol â'r gofynion cynllunio sy'n bodoli ar y pryd. Mae hyn wedi dod yn rhan annatod o'r broses yn yr Awdurdod ar gyfer gosod y gyllideb a chynllunio.

10.3 Byddai'r Gweithgor Cynllunio yn cwrdd dros y misoedd nesaf i ystyried a datblygu'r amcanion, gyda'r bwriad o gyhoeddi Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2019-2020 i ddiben ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2018 a'i gyhoeddi'n terfynol ym mis Mawrth 2019.

10.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) bod holl aelodau'r Panel Gweithredol yn dod yn aelodau i'r Gweithgor Cynllunio;**

**(ii) mai dyma ddyddiadau cyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio:**
**Dydd Llun 15 Ionawr 2018, 2pm;**
**Dydd Llun 5 Chwefror 2018, 2pm;**
**Dydd Llun 26 Chwefror 2018, 10am;**
**Dydd Llun 5 Mawrth 2018, 2pm.**

11 PENODI PRIF SWYDDOG CYNORTHWYOL (CYLLID AC ADNODDAU)

11.1 Cafodd yr Aelodau wybod bod Helen McArthur (sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd ar hyn o bryd) wedi cael ei phenodi i'r swydd a'i bod yn dechrau yn y gwanwyn. Nodwyd na fyddai swydd Dirprwy Brif Swyddog Tân yn cael ei llenwi ar hyn o bryd.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

12 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN 2018

12.1 Cafodd yr Aelodau wybod am ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn 2018 a dylai'r Aelodau nodi'r cynllun seddi (atodiad 1 o'r adroddiad) ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod er mwyn hwyluso'r broses we-ddarlledu.

12.2 Dyma'r dyddiadau a drefnwyd:

ATAGC
Dydd Llun 19 Mawrth 2018
Dydd Llun 18 Mehefin 2018
Dydd Llun 17Medi 2018
Dydd Llun 17Rhagfyr 2018

Panel Gweithredol
Dydd Llun 12 Chwefror 2018
Dydd Llun 14 Mai 2018 **(cychwyn 2pm)**
Dydd Llun 16 Gorffennaf 2018
Dydd Llun 22 Hydref 2018

Pwyllgor Archwilio
Dydd Llun 29 Ionawr 2018
Dydd Llun 4 Mehefin 2018
Dydd Llun 10 Medi 2018

12.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo dyddiadau'r cyfarfodydd 2018, fel yr amlinellir uchod, ynghyd â'r trefniadau seddi.**

13 Y PWYLLGOR SAFONAU: PENODI AELODAU ANNIBYNNOL

13.1 Bu'r Aelodau'n ystyried penodi dau Aelod i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

13.2 Cynhaliodd yr Awdurdod ymgyrch recriwtio ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint i recriwtio aelodau i'w Pwyllgorau Safonau eu hunain. Roedd angen dau aelod annibynnol ar ATAGC ac roedd angen un aelod annibynnol ar Sir y Fflint.

13.3 **PENDERFYNWYD penodi Sally Ellis a Julia Hughes am gyfnod o bedair blynedd o 1 Ionawr 2018 ymlaen.**

14 COFNODION ER GWYBODAETH

14.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn eu cyflwyno er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017
- Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2017

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**